# Cyngor Cymuned LLANBRYNMAIR Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 4ydd Mis Hydref 2023

**Presennol**
Cynghorwyr - E Davies (Cadeirydd), D Jones, F Cauley, E Lewis, B Jones, P Jones, I Edwards, S Evans, R Ashton, G Davies a G Mitchell (Powys)

**Ymddiheuriadau** -

Cynnigiodd y Cadeirydd, E Davies, croeso cynnes i pawb

**Cyflwyniadau –**

**Datganiadau diddordeb** – B Jones ynglyn a datblygiadau Cae Bryn Coch

**Cytuno Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 6ed Medi 2023**
E Lewis yn cynnig, B Jones yn eilio. Pawb yn gytun

**Materion yn codi**
1. <u>Parcio ceir ym mhentref Llan</u> - R Ashton wedi atgoffa Ben Davies am ddod a llwyth o 'planings' i lenwi ambell i bant ar y safle
2. <u>Cais am llwybr seiclo o gwmpas y Cae Cymunedol</u> - Mae S Reast wedi archebu coed ar gyfer y shetyn gan y Woodland Trust, fydd rhain yn rhad ac am ddim.
3. <u>Cynnig ail agor y gorsaf rheilffordd yn Llanbrynmair</u> - Clywyd fod y nifer o bobol yn defnyddio'r gorsaf newydd yn Bow Street yn siomedig a fod hwn yn effeithio'n negyddol ar y siawns o gael unrhyw gorsaf arall ar y lein. S Reast i arolygu'r ffeithiau.
4. <u>Cyfleusterau cyhoeddus</u> - Mae un o toiledau'r dynion yn llifo dwr o hyd. S Reast i siarad gyda'r plymer, Mark Shelley. Mae'r goleuadau wedi bod i ffwrdd fin nos. S Reast i siarad eto efo Becky Rowlands. Mae I Edwards wedi cynnig edrych ar y mater hefyd os fydd angen. Cytynwyd y dylai S Reast gofyn i Peter Lamb edrych ar y darn o to sydd yn gollwng dwr ac yn achosi difrod i'r nenfwd yn toiledau'r merched. Cynnigodd E Davies clirio'r sbwriel tu ol yr adeilad. Mae S Reast wedi gwneud ymholiadau ynglyn a paneli solar ond mae yna mwy o waith i neud ar hyny
5. <u>Hysbysfyrdd</u> - Mae yna problemau gyda'r hysbysfwrdd newydd. Cynnigodd F Cauley y syniad o rhoi hysbysfwrdd Bont yn y lloches bws yn Llanbrynmair allan o'r tywydd drwg a prynnu un newydd i Bont. S Reast i edrych i mewn i'r costau
6. <u>Offer diffibrilwyr yn ardal Llanbrynmair</u> - Vera Jones sydd yn gyfrifol am y bocs ffon yn Tafolwern ac mae hi wedi rhoi caniatad i'r diffibrilwr newydd cael ei osod ynddo. Ni fydd angen trydan iddo fo. Mae'r pads i'r diffibrilwr yn Llan angen eu adnewyddu, I Edwards i edrych mewn i'r opsiynnau a'r costau. Mae'r gerej yn Bont wedi cael ei werthu felly efallai fydd angen ystyried newid lleoliad y diffibrilwr yna
7. <u>Ystyried offer newydd yn y Cae Chwarae</u> - S Reast wedi cael cyfarfod gyda cynrichiolydd Gronfa Cymunedol y Loteri. Cynnigwyd gwenud cais am offer i'r cae chwarae ar unwaith a cynal cyfarfod cyhoeddus i trafod prosiectau ehangach yn y gwanwyn. Cynnigwyd ystyried cynnwys costau CCTV yn y cais. Mae plant yr ysgol wedi cyflwyno syniadau mewn ffurf lluniau a nodiadau
8. <u>Cynllyn hyfforddi</u> – Mae F Cauley wedi gwneud hyfforddiant 'Code of Conduct' a trefnwyd dyddiad i R Ashton gwneud hyfforddiant Cadeirio
9. <u>Gwrych pob ochr i Tyrpeg yn Nhalerddig</u> – S Reast wedi ysgrifennu at y perchnogion newydd i egluro'r ymholiadau hanesyddol a'r cyfrifoldebau i'r dyfodol

10. Gwifren BT ar lawr wrth croesfan Bont – Mae F Cauley wedi treulio gryn dipyn o amser yn ceisio cyfathrebu gyda Open Reach heb llwyddiant. Cytynwyd i gadael y mater gan nad oes yna risg sylweddol fel y mae
11. Shetyn wrth Pont Bel – S Evans i cael gair gyda perchnogion Ty'n Ddol ynglyn a'r shetyn ar eu tir nhw
12. Carthion yn yr afonydd – Dim diweddariad
13. "Concealed entrance", Maes yr Efail – S Reast i cysylltu gyda'r trigolion ger llaw eto i trafod y posibilrwydd o rhoi drych cyferbyn a'r mynediad.
14. Tender i torri gwair yn y cae chwarae – Dim diweddariad ar costau rhisgl coed
15. Station House, Talerddig – Dim diweddariad
16. Torri gwair rhwng Wynnstay a'r ffarm – B Jones a R Ashton i cael gair gyda perchenog Ffarm Wynnstay. S Reast i rhoi copi o'r llythyr gan Powys iddyn nhw
17. Biniau ar gwaelod ffordd Bryneinty – Cynnigwyd gofyn i Powys os gall un o'r loriau bach fynd i fyny'r ffordd fach yn hytrach na gorfodi'r trigolion i gyd i ddod a'r sbwriel i'r gwaelod – dim diweddariad
18. 'Weedkiller' o gwmpas pyst arwyddion – S Reast wedi ysgrifennu at Powys i ofyn am manylion ei polisi ynglyn a rheoli chwyn ond does dim ateb eto. S Reast i ysgrifennu eto gan copio G Mitchell i fewn
19. Lloches Bws Dolfach – Mae perchnogion y Feinol yn hapus i cael y lloches bws newydd ar ffiniau eu tir nhw. S Reast i cydlynnu cyfathrebiad rhyngddynt a Traws Cambria
20. Arwyneb y ffordd wrth Pont Brics – S Reast wedi ysgrifennu at Trunk Road Agency, mae'r gwaith ar ei rhestr nhw o prosiectau i'w gwneud
21. Gerddi fler yn Rhif 2 a 13, Glanclegyr - S Reast i cadarnhau fod y mater wedi cael ei ddatrus
22. Tocio'r shetyn a mieri yn Bont – S Reast i gofyn i Josh Reast edrych ar y gwaith sydd angen ei wneud
23. Bainc yn Dolfach – Gofynwyd am bainc newydd wrth troiad ffordd yr Hen Gapel. S Reast i gwneud ymholiadau. Cytynwyd i trsglwyddo'r costau i Ymddiriedolaeth y Fferm Wynt
24. Sied wedi torri yn y cae chwarae – Cytynwyd i gynnig y sied a'r 'raised beds' i'r ysgol
25. Hysbysfwrdd yn Nhalerddig – F Cauley i ceisio gweld ffordd o agor yr hysbysfwrdd er mwyn ei ddefnyddio'n well. Diolch i rhywun am glanhau'r lloches
26. Hysbysfwrdd yn Llan – Cytynwyd symud yr hysbysfwrdd wrth yr hen siop i Llan. Fydd angen caniatad gan perchnogion yr ysgubor i'w osod o ar y wal yn gwynebu'r maes parcio
27. Ffair y ganolfan – Goyfnwyd os buasai'r Cyngor yn gallu cynal stondin boteli ar gyfer y ffair elenni ar Hydref 27ain

**Materion ffyrdd**

- Llinellau gwyn wrth Yr Efail a Bryncoch – G Mitchell i pwyso ar Powys i wneud y llinellau tra fydd rheini ar y ffordd newydd yn cael eu wneud
- Cerrig gwyn wrth ymyl Ffordd Pandy – G Mitchell wedi camddeallt y lleoliad penodol. R Ashton i rhoi cyfeiriad What3Words iddo

- Cyflymder traffig ar y briffordd i mewn i'r pentref – E Lewis yn cynnig mesur cyflymder traffig trwy'r pentref. G Mitchell yn awgrymu ymholiadau gyda 'Go Safe'
- Goleuadau wrth Dolgoch – S Reast i gwneud ymholiadau gyda Trunk Road Agency ynglyn a symud y goleuadau gan credwyd fod y gwaith wedi cael ei cwblhau
- Draen wrth yr Hen Gapel – S Reast i ysgrifennu at Powys
- Pen draw ffordd Pandy – S Reast i ysgrifennu at Powys
- Ffordd yn disgyn islaw Lluest – S Reast i ysgrifennu at Powys
- Pont yn Dolgoch - Adroddwyd difrod i'r pont gan trigolion gerllaw. S Reast wedi trafod gyda Trunk Road Agency, mi fyddent yn ymweld a'r safle yn fuan
- Cyrb tu allan mynediad i'r siop – Mae'r 'dropped kerb' yn rhy uchel. S Reast wedi trafod gyda Trunk Road Agency, maent yn bwriadu ymweld a'r safle
- Ffyrdd yn cau ar gyfer Gwaith Open Reach –
    a. Ffordd Cwm Ffynnon o gwmpas troiad i Pwll Melyn, 9.30yb – 3.30yp, 25-27ain Mis Hydref
    b. Ffordd wrth troiad i Hafodwen, (Bont i Talerddig), 8.00yb – 4.00yp, 6ed Mis Tachwedd
    c. Ffordd i Ty Pella, 8.00yb – 4.00yp, 9fed Mis Tachwedd

**Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)**
- Ymgyrch i gofyn am cyfyngiadau cyflymder traffig i 20myh heibio'r tai newydd ar y ffordd i Bont

**Gohebiaeth**
- Blewyn glas – Y Golygydd yn gofyn am cyfraniadau cynghorau cymunedol i fod yn fwy gryno

**Cynllunio**

- 23/1164/FUL | Erection of 3 no. 3 bed dwellings (terraced) including landscaping, vehicular access and all associated works | Land At Cae Bryncoch Llanbrynmair Powys SY19 7DL – ni dderbynwyd ateb i'r ymholiad ynglyn a tai afforddadwy, S Reast i ysgrifennu eto gan copio G Mitchell i fewn.
- Bute Energy – Ymgynghoriad ynglyn a Parc Ynni Llyn Lort, er wybodaeth yn unig
- Cais gan Clarke Telecom ar gyfer mast ar Mynydd Talyglannau - Cefnogwyd

**Cyfriflen a balans ariannol**

Ar gael ar 31/08/2023

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol | £10,844.22 |
| Cyfrif Cadw | £2,899.01 |
| Cyfanswm | £13,743.23 |
| Sieciau heb eu cyflwyno | £2701.53 |
| Balans ar gael | £11,041.70 |

**Ceisiadau a thaliadau ariannol**

| **Dyddiad cytunwyd** | **Eitem** | **Cyfanswm** | **Rhif y cheque** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 04/10/23 | Cyflog y Clerc | £368.00 | | |
| 04/10/23 | Treth ac NI ar cyflog y Clerc (Gorffenaf) | £92.00 | | |
| 04/10/23 | DRE & Co – Gwasanaethau PAYE | £77.40 | | |
| 04/10/23 | Mark Shelley | £70.00 | | Wedi talu |
| 04/10/23 | Gwasanaethau Arfon Hughes – Costau cyfieithu Gorffenaf | £140.00 | | |
| 04/10/23 | E.ON Next | £16.25 | | |
| 04/10/23 | A C Evans | £2009.00 | | Cytynwyd i dalu £1979.00 |
| 04/10/23 | BHIB Yswiriant | £557.66 | | |

**Unrhyw fater arall**

- **L**oriau coedwigedd yn creu problemau amser cludo plant i'r ysgol. S Reast i **y**sgrifennu at Kieron Owen a Les Hughes gan copio G Mitchell i mewn

**Eitemau ar gyfer yr agenda nesa**

- F Cauley – Coed ar y ffordd i croesffan Bont yn beryglus
- I Edwards – Llwybr o Dolfach i Llanbrynmair
- R Ashton – 'Gullies' cyferbyn a'r Felin wrth troiad Cwm Ffynnon
- B Jones – Tai cyngor wag.
- B Jones – Polion gwyn ar ffordd Pandy
- D Jones – Llwybr o'r gerej i troiad Tafolwern

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher 1af mis Tachwedd 2023**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Fercher, 6ed mis Rhagfyr 2023**

Sarah Reast
Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair